OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 481

# Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

## RHAN 2

## DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG (FFIOEDD A DYFARNIADAU) (CYMRU) 2007

**Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007**

**5.** Yn rheoliad 4 (codi ffioedd)—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (1B), mae'n gyfreithlon i'r sefydliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) godi ffioedd uwch yn achos person nad yw'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) paragraffau 2, 2A, 3, 4, 4A, 4B, 5, 6A, 7A, 8A, 9A, 9B, 9C, 9D, 9E, 10A, 11A neu 12A o'r Atodlen; neu

(b) paragraffau 6, 7, 8, 9, 10, 11 neu 12 o'r Atodlen pan fo paragraff (1A) yn gymwys,

nag yn achos person sy'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r paragraffau hynny.";

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) mewn cysylltiad â chwrs sy'n dechrau cyn 1 Awst 2021, pan ddaeth person ("A") o fewn unrhyw un neu ragor o baragraffau 6, 7, 8, 9, 10, 11 neu 12 o'r Atodlen mewn perthynas â blwyddyn academaidd o'r cwrs sy'n dechrau cyn 1 Awst 2021; a

(b) pan fo A yn atebol am ffioedd mewn cysylltiad ag—

(i) y cwrs hwnnw, neu

(ii) cwrs a ddarperir gan sefydliad y cyfeirir ato ym mharagraff (3) y mae A yn trosglwyddo iddo o'r cwrs hwnnw yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

(1B) Mewn perthynas â chwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2028, mae paragraff (1) yn cael effaith fel pe bai paragraffau 8A a 9B wedi eu hepgor o baragraff (1)(a).";

(c) ym mharagraff (2), yn lle "o fewn yr" rhodder "o fewn paragraff o'r", ac yn lle "o'i mewn" rhodder "o'i fewn".